Annwyl Bennaeth Adran,

Tybed a fyddai modd ichi rannu'r alwad agored hon gyda'ch disgyblion sy'n astudio Cymraeg ym mlwyddyn 12 ac 13 os gwelwch yn dda?

Mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, bydd cyfle i 15 disgybl dreulio penwythnos preswyl creadigol yng Nghanolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru, Tŷ Newydd, Llanystumdwy, 21-23 Tachwedd, 2025. Mae'r penwythnos – i gynnwys llety, bwyd (brecwast, cinio, swper, byrbrydau), diod a gweithdai – yn cael ei gynnig am ddim.

Drwy'r penwythnos bydd gweithdai creadigol byrlymus dan arweiniad beirdd, llenorion a dramodwyr sydd yn dal sawl gwobr a llwyddiant cenedlaethol a rhyngwladol. Ceir gweithdai barddoniaeth, rhyddiaith, sgriptio i ddrama a theledu, yn ogystal â darlleniadau gwadd gan awduron mwyaf cyffrous Cymru. Bydd amserlen lawn y penwythnos ar gael yn fuan iawn.

Dyma gyfle euraidd i ysbrydoli, i danio ac i ennyn diddordeb a phleser y disgyblion mewn ysgrifennu creadigol ac i amlygu'r hyn mae'r Gymraeg yn ei gynnig fel maes profiad a llwybr gyrfa. Yn ogystal, bydd yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion o bob cwr o Gymru i ddod at ei gilydd i gymdeithasu a chanfod eneidiau hoff cytûn.

Y cwbl sydd angen i'r disgyblion ei wneud yw llenwi ffurflen wybodaeth, ffurflen monitro cydraddoldeb a chyflwyno darn o waith creadigol dim mwy na 2,000 o eiriau erbyn 13:00 13 Hydref 2025. Mae'r ffurflen gais ar gael yma. Mae'r alwad agored a'r holl fanylion wedi'u rhannu ar gyfryngau Adran y Gymraeg Bangor, Llenyddiaeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd. Bydd cynrychiolaeth o Adran y Gymraeg Bangor, Llenyddiaeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dewis y 15 disgybl ac yn rhoi gwybod am y dyfarniad i'r disgyblion erbyn diwedd mis Hydref.

Gobeithio yn fawr y bydd disgyblion o'ch ysgol chi yn manteisio ar y cyfle arbennig hwn.

Gyda diolch,

Dr Marged Tudur
(ar ran Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor)